## Ymweliad â Fflandrys

Ymwelais i â Fflandrys ar 23/24 Mehefin 2025. Pwrpas yr ymweliad oedd edrych ar y mentrau a'r dulliau adfywio a datblygu economaidd a gymerwyd gan lywodraeth Fflandrys.



Dros y ddau ddiwrnod ymwelais â thri safle. Yn gyntaf, Parc Thor yn Genk, yn ail Cyrchfan Terhills a phentref modern (cynllunwyr) ym Maesmechelan, ac yn olaf ystâd ddiwydiannol Kristolpark y tu allan i Lommel.

Caiff llawer o'r mentrau adfywio yn Genk a rhanbarth maes glo ehangach Fflandrys, eu darparu gan LRM (Limburgse Reconversie Maatschappij) sydd wedi chwarae rhan sylweddol wrth hwyluso trawsnewidiad economaidd a chymdeithasol y rhanbarth hanesyddol diwydiannol hwn. Sefydlwyd y gronfa yn wreiddiol gan Lywodraeth Fflandrys yn dilyn grant a wnaed gan lywodraeth ffederal Gwlad Belg i ariannu cau'r maes glo.

## Y cefndir




Roedd Genk a rhanbarth Limburg yn hanesyddol ddibynnol ar gloddio glo, a oedd yn sbardun economaidd pwysig nes i'r mwyngloddiau gau ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Yn fwy diweddar hefyd, caewyd ffatri geir Ford, gan arwain at golli nifer enfawr o swyddi yn y ffatri ei hun a chadwyni cyflenwi cysylltiedig. Arweiniodd y cau at heriau economaidd sylweddol ac roedd angen ymdrechion adfywio cynhwysfawr. Sefydlwyd LRM i gefnogi'r trawsnewid o economi ddiwydiannol i economi amrywiol ac mae bellach yn goruchwylio ystod o fentrau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

## Adfywio Genk

Mae Genk wedi dod yn safle canolog ar gyfer gwaith adfywio yn rhanbarth Limburg. Mae'r ddinas yn cynnal prosiectau mawr fel C-mine, sy'n enghraifft o addasu hen safleoedd diwydiannol i gael eu hailddefnyddio. Trwy drosi glofa Winterslag, mae C-mine bellach yn gweithredu fel canolfan ar gyfer diwydiannau creadigol, addysg a gweithgareddau diwylliannol. Mae LRM wedi bod yn allweddol wrth sicrhau buddsoddiad, cydgysylltu rhanddeiliaid, a chefnogi’r gwaith o ddatblygu seilwaith i hwyluso'r trawsnewid hwn.



Mae Genk hefyd yn gartref i Barc Thor, a bûm ar ymweliad yma hefyd. Mae hwn yn hen safle glofa arall sydd wedi'i adfywio fel safle i entrepreneuriaid ac fel sbardun ar gyfer datblygu ac ymchwil diwydiannol newydd yn ogystal ag ar gyfer addysg gyda champws coleg sylweddol.

## Strwythur, rôl a dull gweithredu LRM

Mae LRM yn gweithredu fel endid buddsoddi cyhoeddus-preifat, yn darparu cymorth ariannol ar gyfer ailddatblygu ac arloesi. Mae'n gwmni preifat, a Llywodraeth Fflandrys yw'r unig gyfranddaliwr. Y Llywodraeth sy'n gwneud pob penodiad i'w fwrdd ond mae'n gweithredu ar sail egwyddor hyd braich.

Mae'n gweithredu fel hwylusydd ar gyfer prosiectau mawr, fel C-mine a Pharc Thor. Mae Parc Thor, a ddatblygwyd ar hen safle mwyngloddio Waterschei, yn canolbwyntio ar ymchwil ac arloesi mewn technoleg ac ynni. Mae LRM yn cydweithio â sefydliadau academaidd a mentrau preifat i feithrin arallgyfeirio economaidd, hyrwyddo ymchwil a datblygu, a chreu cyfleoedd cyflogaeth.

## Ystyriaethau cymunedol a diwylliannol



Mae strategaeth adfywio LRM yn ymgorffori ymgysylltu â'r gymuned ac yn rhoi pwyslais pwysig ar ddiwylliant a hanes y rhanbarth. Drwy gefnogi mentrau addysgol, rhaglenni ailhyfforddi, a phrosiectau cymunedol, nod LRM yw sicrhau bod adfywio o fudd i drigolion lleol. Nod y gwaith o addasu hen fannau diwydiannol at ddefnydd cyhoeddus yw annog cyfranogiad cymunedol a meithrin ymdeimlad newydd o hunaniaeth yn y rhanbarth.

Ar yr un pryd mae creu'r parc cenedlaethol a chyrchfan Terhill yn fuddsoddiad sylweddol mewn hamdden ac yn amgylchedd y rhanbarth. Mae'n cynrychioli uchelgais pellgyrhaeddol i newid canfyddiadau o'r rhanbarth a'r cyfleoedd hamdden sydd ar gael i bobl sy'n byw yn yr hen faes glo.

## Heriau parhaus

Er gwaethaf cynnydd, mae hen faes glo Fflandrys yn parhau i wynebu rhai heriau sylweddol sy'n gyfarwydd i ni yng Nghymru – fel diweithdra, cynhwysiant cymdeithasol, ac adfer amgylcheddol. Nid yw effaith adfywio yn unffurf, ac mae gwahaniaethau yn parhau rhwng gwahanol gymunedau. Mae dull gweithredu LRM yn pwysleisio partneriaeth hirdymor a chynllunio integredig i fynd i'r afael â'r materion hyn.




## Casgliad

Mae'r gwaith adfywio yn Genk a maes glo Fflandrys, o dan arweiniad LRM, yn dangos dull strwythuredig o arallgyfeirio economaidd ac adnewyddu cymunedol mewn cyd-destun ôl-ddiwydiannol. Mae cyfranogiad LRM wedi hwyluso buddsoddiad, cefnogi arloesedd, a hyrwyddo

treftadaeth ddiwylliannol wrth fynd i'r afael â heriau economaidd-gymdeithasol parhaus y rhanbarth. Rwy'n credu bod gan Gymru rai gwersi pwysig i'w dysgu o'r profiad hwn.